

## Galw am gynigion — Engage 45: Class and Inequality

Golygir gan yr Athro Sarah Perks

*Yn dilyn yr amlinelliad isod, a sbardunwyd gan drafodaeth gyda Bwrdd Ymgynghorol Engage Journal, ceir cyfres o gwestiynau y gellir eu defnyddio i annog atebion mewn cynigion am erthyglau.*



**Gwahoddir cynigion ar gyfer rhifyn 45 o Engage Journal: Class and Inequality. Bydd y rhifyn hwn o'r cyfnodolyn yn canolbwyntio ar ystyriaethau dosbarth, anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb mewn perthynas ag addysg orielau a rhaglenni ymgysylltu a'r sector cysylltiedig. Dyddiad cau cynigion: 18 Ionawr 2021**

Mae'r Cyfnodolyn hwn yn gwahodd trafodaeth na cheir yn fynych mewn amgueddfeydd ac orielau yn uniongyrchol, er ei bod yn rhan bwysig o'r disgwrs cyfredol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn uchel ar agendâu cyhoeddus a phersonol. Ond os yw dosbarth cymdeithasol eto i ymddangos yn llawn fel pwnc sy'n allweddol i'r byd celf, mae wedi dechrau ailgodi yn weledol yn sgil sylw fel y cafwyd yn y cyfryngau poblogaidd ar y 'wal goch' (cymunedau dosbarth gwaith yn pleidleisio i'r Torïaid ym mis Rhagfyr 2019) a'u pwyslais ar y rhaniad gogledd-de yn nhermau anghydraddoldebau cyflogaeth, iechyd a thai. Mewn diwylliant poblogaidd, mae llyfrau gan ffigurau dylanwadol fel y cerddor Akala wedi derbyn canmoliaeth gan y beirniaid am eu hymdriniaeth o ddosbarth, mae *Natives: Race and Class in the Ruins of Empire* (2019) yn arbennig o ddiddorol yn nhermau ei groestoriadedd â hil ac ystyriaethau ôl-drefedigaethol. Yn 1990, aeth John Major i Downing Street gyda datganiad y byddai'n creu 'cymdeithas ddi-ddosbarth' ym Mhrydain ond edwinodd y drafodaeth ar y pwnc drwy gydol blynyddoedd Llafur Newydd. Fodd bynnag, ers adladd argyfwng ariannol 2008, mae dosbarth wedi dychwelyd i wleidyddiaeth a'r ymwybyddiaeth gyhoeddus, a phwysleiswyd anghydraddoldebau fwy fyth gan ddigwyddiadau erchyll Grenfell yn 2017 ac eleni gyda phandemig Covid-19. Yn wir, fel y dywed Owen Jones yn ei

rhagair newydd i'w gyfrol glasurol Chavs: 'mae effaith y llyfr yn ymwneud llai â'r teitl pryfoclyd a phopeth â'r ffaith fod dosbarth yn ôl yn fwy nag erioed.' <sup>1</sup>

Yn y DU, mae dros ddeng mlynedd o bolisi llymder, Brexit a bellach pandemig Covid-19 wedi esgor ar gyfnod newydd o dlodi ac ansicrwydd economaidd, mewn cyferbyniad i gyfnod cymharol lewyrchus cyn hyn a welodd gynnydd mewn buddsoddi yn y celfyddydau. Yn UDA, creodd tymor Trump yn Arlywydd Gweriniaethol raniadau a thensiynau newydd ar draws y wlad gan gyflwyno polisïau yn erbyn mewnfudo a'r dosbarth gwaith yn gyffredinol, er gwaethaf eu cefnogaeth gynyddol ymddangosiadol iddo. Mae Brexit a dyrchafiad Boris Johnson yn y DU yn baradocs tebyg gyda chefnogaeth eang i sefydliad sy'n gynyddol elitaidd a diffyg symudedd cymdeithasol. Ar draws y byd, mae gwleidyddion poblyddol ac ar y dde eithaf yn pwysleisio gwahaniaeth, yn torri rhaglenni lles cymdeithasol ac yn newid cymdeithasau mewn ffordd sy'n breintio strwythurau dosbarth a hierarchaeth traddodiadol. Mae'r byd celf wedi ymateb yn feirniadol i rai mathau o nawdd, gan droi cefn yn ddiweddar ar nifer o ffigurau allweddol sy'n adnabyddus am eu cyfoeth a'u braint oherwydd eu cysylltiadau â mentrau anfoesegol (h.y. Kandors a'r Whitney Biennial, teulu Sackler ac Oriel Serpentine) – a fydd hyn yn arwain at fwy o newid strwythurol ac mewn gwirionedd yn effeithio ar ganfyddiad o ddosbarth a strwythurau pŵer cysylltiedig?

Yn nhermau addysg orielau a chelf weledol, a phrosiectau cymunedol a chyfranogi ehangach, ceir enghreifftiau cryf o sefydliadau'n herio anghydraddoldeb cymdeithasol yn uniongyrchol, ond dim cymaint ag y byddech yn ei ddisgwyl. Mae Art Gene yn Barrow in Furness wedi lansio prosiectau fel *Extreme Views* gyda chyfnodau preswyl i artistiaid a melinau trafod yn mynd i'r afael ag amddifadedd ôl-ddiwydiannol y dref. Mae gan North Edinburgh Arts ffocws cryf ar ymgysylltu dinesig a chysylltiadau cymunedol, ac mae'r corff wedi'i ysbrydoli gan agenda 'defnyddiol' a wreiddiwyd mewn sefydliadau fel MIMA (Middlesbrough Institute Of Modern Art) a gwaith Sefydliad Calouste Gulbenkian ar Sefydliadau Celfyddydol Dinesig. Mae rhai sefydliadau celf fel Blaze Arts yn Swydd Gaerhirfryn a RECLAIM ym Manceinion yn cael eu harwain gan bobl ifanc gydag ymagweddau arloesol at ehangu cyfranogiad a mynediad i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel yn benodol; hefyd darparu cymorth i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc dosbarth gwaith ar lefel uwch a bwrdd yn ogystal. Roedd artist Cymru yn Fenis Sean Edwards yn ffigur prin ymhlith ei gyfoedion wrth fynd i'r afael â dosbarth cymdeithasol yn yr ŵyl fawreddog yn 2019, gyda'i fewnosodiadau'n seiliedig ar ei fagwraeth mewn teulu un rhiant ar ystâd gyngor yng Nghaerdydd. Mae ei feddyliau'n pwysleisio'r diffyg ystyriaeth mewn celf weledol: "Mae pobl yn siarad am lais dosbarth gwaith yn nhermau ffilm neu lenyddiaeth, ac roeddwn i'n meddwl 'Beth mae hyn yn ei olygu yn y celfyddydau gweledol?' Rwy'n credu mai natur fy ngwaith yw dod o hyd i iaith weledol ar gyfer hyn." <sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Jones, Owen, Chavs: The Demonization of the Working Class, London: Verso Books, 2012 (rhagair newydd)

<sup>2</sup> Dyfynnwyd yn Buck, Louisa, 'Made in Britain: what to expect from the British, Scottish and Welsh Pavilions,' The Art Newspaper, 06 Mai 2019, cyrchwyd <https://www.theartnewspaper.com/preview/from-charlotte-prodger-s-still-landscapes-to-sean-edwards-s-monochrome-quilts-the-biennale-s-british-artists-are-united-in-contemplation>

Rhwydwaith o bobl amgueddfa ac oriel ddosbarth gwaith sydd wedi ennill gwobrau yw Museum as Muck, sy'n gweithio i newid amrywiaeth economaidd-gymdeithasol y sector. Mae gan y sector amgueddfeydd sefydliadau sy'n ymroi, neu sydd â rhaglenni sylweddol, yn cofnodi profiadau'r dosbarth gwaith gan gynnwys People's History Museum (Manceinion), Working Class Movement Library (Salford), Hackney Museum (Llundain), Glasgow Women's Library, a'r Museum of Homelessness (Llundain). Gan ddilyn llwybr a baratowyd gan gwmnïau theatr adnabyddus fel Welfare State International, mae cymuned y theatr wedi ymateb yn gryf eleni i amddifadedd economaidd-gymdeithasol er gwaethaf cael ei gorfodi i gau. Mae Pioneers Slung Low yng nghanol dinas Leeds wedi bod yn gweithredu fel Banc Bwyd, fel yr eglura'r Cyfarwyddwr Artistig Alan Lane:

“Rydyn ni wedi bod yn gwbl glir, rydyn ni'n credu y dylai fod gan bawb sy'n byw yn Holbeck a Beeston fynediad at y bywyd diwylliannol mwyaf cyffrous posibl. Ac yn y ddinas hon gyda'i holl gyfoeth, dylai'r bywyd hwnnw fod yn dda iawn iawn. Ac fe wyddom nad yw hynny'n wir. Felly rwyf i'n gwneud fy ngorau gyda fy nghriw i roi'r bywyd diwylliannol gorau y gallwn i'r gymuned hon, ac os yw hynny'n golygu rhoi bwyd iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu prynu eu creonau eu hunain neu esgidiau ysgol i'w plant, yna fe wnawn ni hynny. Os yw'n golygu rhoi bwyd iddyn nhw fel nad oes rhaid iddyn nhw boeni a'u bod yn mynd ati i wneud darlun i'n horiel postyn lamp LS11 - oedd yn anhygoel o boblogaidd - yna dwi ddim yn mynd i beidio â rhoi bwyd iddyn nhw, ydw i? Rwy'n rhoi'r amser iddyn nhw eu mynegi eu hunain.”<sup>3</sup>

Yn 2018, lansiodd *Panic! Social Class, Taste and Inequalities in the Creative Industries* fel yr 'astudiaeth gymdeithasegol gyntaf ar symudedd cymdeithasol yn y diwydiannau creadigol' gan Create London ac Arts Emergency.<sup>4</sup> Gan ehangu ar draws y diwydiannau creadigol, mae'r papur yn amlygu eithrio sylweddol y rheini o gefndir dosbarth gwaith, y dosbarth creadigol anghynrychioliadol ac ystyriaethau llafur di-dâl. Y flwyddyn ganlynol, lansiodd Jerwood Arts a The Bridge Group *Socio-Economic Diversity and Inclusion in the Arts: A Toolkit for Employers*, gan nodi ffocws na chydabuwyd yn aml o'r blaen o ran arferion cyflogaeth yn y byd celf. Roedd y pecyn cymorth hwn yn fframio'r mater fel un o frys mawr yn y sector gan fod “y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn dal ymhell o fod â chynrychiolaeth ddigonol ymhlith artistiaid a chyflogeion theatrau, gwyliau, orielau a chyrrff celfyddydol o bob math yn y DU.”<sup>5</sup> Yn ogystal â chenhadaeth i gefnogi newid tymor hir drwy gydnabod rhannu ac arbenigedd, mae'r pecyn cymorth hefyd yn eiriol dros ymagwedd groestoriadol. Er nad yw'n 'gategori gwarchoddedig' gan Arts Council England, maen nhw'n cydnabod dosbarth ac wedi cyflwyno 'gwella mynediad at weithgareddau creadigol a diwylliannol i'r rheini o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is' i'w hamcanion cydraddoldeb dros dro ar gyfer 2020.<sup>6</sup> Mae'r adroddiad y llynedd gan Runnymede a CLASS, *We Are Ghosts: Race, Class and Institutional Prejudice*, yn cynnwys llawer o sylwadau ac argymhellion sy'n teimlo ond yn rhy hawdd i'r sector celfyddydau eu hatgyfnerthu'n anymwybodol: “Mae angen cysyniad o'r dosbarth gwaith nad yw'n gosod pobl ddosbarth gwaith yn erbyn

<sup>3</sup> Cyrchwyd <http://www.a Leedsrevolution.co.uk/holbeck-wellbeing-is-in-the-right-hands-why-a-theatre-company-is-running-a-foodbank>

<sup>4</sup> Panic! Cyrchwyd yr adroddiad <https://createlondon.org/wp-content/uploads/2018/04/Panic-Social-Class-Taste-and-Inequalities-in-the-Creative-Industries1.pdf>

<sup>5</sup> Cyrchwyd yr adroddiad <https://jerwoodarts.org/projects/weston-jerwood-creative-bursaries-2017-19/toolkit/>

<sup>6</sup> Diweddarwyd <https://www.artscouncil.org.uk/covid-19-response-reset/temporary-equality-objectives-2020>

ei gilydd ar hyd llwybr teilwng/annheilwng, gwyn/BME, Prydeinig/mewnfudwyr: mae rhaniadau o'r fath wedi cyfiawnhau polisiau sy'n golygu bod pob grŵp ar ei golled.”<sup>7</sup>

Gan ysgrifennu yn The Guardian yn 2018, roedd pennawd Javaad Alipoor yn taro tant, “Mae'r byd celf wedi troi pobl ddosbarth gwaith yn broblem sydd angen ei datrys yn hytrach nag yn aelodau cynulleidfa neu artistiaid i'w datblygu.”<sup>8</sup> Yn fy adroddiad diweddar innau ar gyfer *Art Monthly* ('*Restorative Futures*,’ Medi 2020), rwyf i'n trafod gwaith gan sefydliadau dan arweiniad artistiaid yn meithrin ymgysylltu cymunedol ar draws gogledd Lloegr gan nodi bod ‘eithrio cymdeithasol’ yn bennaf yn gysyniad dosbarth canol yn seiliedig ar y syniad o gael eich eithrio o rai mathau penodol o weithgareddau diwylliannol ac artistig.<sup>9</sup>

Mae Covid-19 wedi arwain at newidiadau cyflym mewn addysg ac ymgysylltu cyhoeddus ar draws y sector, gyda sefydliadau ac ymarferwyr unigol yn symud eu gweithgaredd ar-lein wrth i'w manau ffisegol gau. Wrth i argyfwng Covid-19 barhau a gyda chapasiti ffisegol sefydliadau'n gynyddol gyfyngedig, mae'r mudo i weithgaredd digidol ar gynnydd, gydag anogaeth benodol y llywodraeth a chyrrff cyllido. Mae pecynnau addysg celfyddydau ffisegol hefyd wedi'u llunio gan y sector i'r rheini nad ydynt yn cysylltu ar-lein. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yna mai dim ond dyfeisiau a data yw'r rhwystr at fynediad, a dim byd i gefnogi'r syniad bod mynediad am ddim ar-lein yn fwy hygyrch nag adeiladau. I'r gwrthwyneb, casgliad yr adroddiad a gomisiynwyd gan y llywodraeth *Culture is Digital* (2018) yw yn hytrach na helpu i gynyddu amrywiaeth cynulleidfaoedd, mae mynediad ar-lein fel pe bai'n atgynhyrchu, os nad yn cynyddu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.<sup>10</sup> Beth yw arwyddocâd y newidiadau hyn i'n sector a sut allwn ni ddeall mynediad fel rhywbeth sydd y tu hwnt i gyswllt rhyngrywyd, a mynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol, boed ffisegol neu ddigidol? Sut mae'r mynediad digidol cynyddol hwn wedi croestorri gyda gwaith cynhwysiant o ran dosbarth sydd ar waith ac, er enghraifft, y rheini â mynediad cyfyngedig oherwydd anabledau?

Mae llawer o brosiectau artistiaid neu addysg ar ddsbarth cymdeithasol wedi dod dan ddylanwad testunau academaidd sylweddol o Farcsiaeth i astudiaethau diwylliannol, er enghraifft y rheini gan Raymond Williams, Paul Gilroy a Stuart Hall. Er bod llawer o'r rhain yn edrych drwy lens hil a mudo neu isddiwylliannau gwrywaidd gwyn, datblygodd damcaniaethwyr fel Kimberlé Crenshaw 'groestoriadedd' i esbonio sut mae'r categorïau hyn yn cysylltu â'i gilydd. Yn fwy diweddar mae llyfrau fel *Museum Activism* (Richard Sandell et al, 2019) ac *Anonymous Was A Woman: A Museums and Feminism Reader* (Jenna C. Ashton, 2020) wedi torri tir newydd, gan ailosod ymarfer mewn termau cydraddoldeb, actifiaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Mae gweledigaeth ddeng mlynedd Arts Council England a lanswyd ynghynt eleni, *Let's Create*, yn darllen fel galwad gyfranogol i weithredu dros gydraddoldeb daearyddol ac economaidd-gymdeithasol,

---

<sup>7</sup> Dhelia Snoussi and Laurie Mompelat, *We Are Ghosts: Race, Class and Institutional Prejudice*, Runnymede Trust and CLASS, London: July 2019, cyrchwyd <https://www.runnymedetrust.org/uploads/publications/We%20Are%20Ghosts.pdf>

<sup>8</sup> Alipoor, Javaad, 'The arts world sees working-class people as a problem to be solved', The Guardian, 5 Jun 2018, cyrchwyd <https://www.theguardian.com/stage/2018/jun/05/arts-working-class-people-britain-theatre>

<sup>9</sup> Perks, Sarah, 'Restorative Futures', yn *Art Monthly*, Medi 2020.

<sup>10</sup> Cyrchwyd yr adroddiad <https://www.gov.uk/government/publications/culture-is-digital>



er nad oes iddi gynllun gweithredu manwl ynghylch sut mae cyflawni hyn. Gall *Class and inequality* hefyd gofnodi twf yr oriel a'r amgueddfa breifat - yn y DU ac yn rhyngwladol o Gasgliad Zabłudowicz yn Llundain i MONA yn Tasmania - gyda'u strwythurau, manau addysg a rhaglenni yn aml yn cystadlu â'r chwaraewyr sefydledig sydd ar y cyfan yn derbyn cyllid cyhoeddus.

## Cwestiynau

Mae gennym ddiddordeb mewn cyfraniadau gan gydweithwyr yn y DU ac yn fyd-eang yn ymwneud â dosbarth ac anghydraddoldeb ac yn benodol ymhle mae hyn yn cysylltu ag addysg orielau a chelf weledol. Gall cynigion ymdrin â chwestiynau megis:

- Sut allwn ni ddeall rhagor am ble mae ystyriaethau dosbarth yn effeithio ar ymarfer addysg orielau a chelf weledol?
- Beth yw'r prif enghreifftiau o ymarfer addysg celfyddydau cynhwysol a chroestoriadol sy'n ymwneud â dosbarth?
- Sut mae theori academiaidd wedi dylanwadu ar arferion a dulliau ymgysylltu'r sector?
- Beth fu'r berthynas benodol rhwng dosbarth, anghydraddoldeb a Mudiad Black Lives eleni?
- Sut mae sefydliadau a'r sector wedi ymateb i adroddiadau fel Panic! a pheycyn cymorth Jerwood/Bridge Group a beth yw'r gwaddol yma? Sut mae ein sector yn ymdrin ag amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a chynhwysiant yn nhermau recriwtio a/neu gyfranogwyr a sut ydym ni'n gweld dyfodol hyn?
- Beth fu'r canfyddiadau allweddol o brosiectau addysgol diweddar yn ymwneud â dosbarth ac anghydraddoldeb?
- Trafodaeth ar rôl lle, cymuned a/neu hunaniaeth mewn perthynas â dosbarth a hunaniaeth.
- Ble mae dosbarth yn ymddangos yn ein strategaethau addysg ffurfiol ac anffurfiol a'n methodolegau addysgeg?
- Beth yw perthnasedd ehangach agweddau croestoriadol at ddosbarth?
- Sut ydym ni'n gweld ac yn dysgu o enghreifftiau y tu hwnt i'r DU?
- Beth fu effaith pandemig Covid-19 ar ddosbarth ac anghydraddoldeb?
- Sut mae dosbarth yn dylanwadu ar ein hymagwedd at weithio ar-lein a thrwy ymgysylltu digidol?
- Beth yw effaith arian a sefydliadau preifat yn ymgymryd â mwy o rôl draddodiadol cyllido cyhoeddus?
- Trafodaeth ar strwythurau amgen i sefydliadau ac ysgolion celf, er enghraifft twf ysgolion celf amgen ac am ddim?
- Beth yw rôl addysgwyr ac artistiaid yn gweithio gyda chymunedau ar ddosbarth cymdeithasol?

Dylai dosbarth ac anghydraddoldeb hefyd ennyn trafodaeth y tu hwnt i ymdrin â'r dosbarth gwaith ac nid yw'r Cyfnodolyn yn gyfyngedig i gyd-destun y DU, er bod George Orwell wedi datgan yn 1941 mai'r cyd-destun hwnnw yw: "the most class-ridden society under the sun".<sup>11</sup>

---

<sup>11</sup> Dyfynnwyd [https://en.wikipedia.org/wiki/Social\\_class\\_in\\_the\\_United\\_Kingdom](https://en.wikipedia.org/wiki/Social_class_in_the_United_Kingdom)

## Gwybodaeth Cyfrannu

Mae Engage Journal yn derbyn amrywiaeth eang o gynigion cynnwys ysgrifenedig a/neu ar-lein a chaiff ysgrifau academaidd, cyfweiliadau, darnau cydweithredol, sgyrsiau, ffotograffau, trafodaethau, gwaith arbrol a ffurfiau fel sain, fideo a chyfryngau eraill eu hystyried. Disgwylir i'r cyfraniadau ysgrifenedig terfynol fod rhwng 2,000 a 3,000 o eiriau.

Nid yw'r Cyfnodolyn yn cyhoeddi astudiaethau achos; caiff y rhain eu cynnwys yn adran rhannu ymarfer Engage.

Rydym ni hefyd yn datblygu syniadau am ddigwyddiad ar-lein i lansio'r Cyfnodolyn ac yn gwahodd cynigion i ystyried sut y gallai eu cyfraniad fod yn rhan o hyn.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfrannu i'r rhifyn hwn, anfonwch gynnig anffurfiol o ddeutu 200-300 gair, teitl eich swydd/llawrydd a manylion cyswllt i [editor@engage.org](mailto:editor@engage.org) erbyn dydd Llun, 5pm, 18 Ionawr 2021.

Mae gan Engage Journal nifer penodol o fwrsariaethau ar gyfer awduron llawrydd ym mhob rhifyn. Ni thelir ffioedd cyfranwyr i gyflogeion llawn amser, myfyrwyr nac academyddion.

## Amserlen y Cyfnodolyn

- Dyddiad cau cynigion: 18 Ionawr 2021
- Dyddiad cau cyfraniadau: 08 Chwefror 2021
- Caiff Engage 45: Class and Inequality ei gyhoeddi ddiwedd Mawrth/dechrau Ebrill

## Engage Journal

Cyhoeddwyd Engage Journal am y tro cyntaf yn 1996, a hwn yw'r cyfnodolyn rhyngwladol ar gyfer addysg celf weledol ac orielau. Bellach mae'n gyhoeddiad ar-lein ac mae cynnwys pob rhifyn yn dilyn themâu'n gysylltiedig â'r celfyddydau gweledol ac addysg, a ddewisir drwy broses cyflwyno agored. Mae'r Cyfnodolyn yn gweithredu fel ciplun o'r meddwl cyfredol ar bwnc, yn storfa o gyfeiriadau, ffynhonnell o syniadau ymarferol a fforwm ar gyfer cyfnewid rhwng gwahanol rannau o'r gymuned celf ac amgueddfeydd ac orielau.

Golygydd y Cyfnodolyn yw'r Athro Sarah Perks, curadur, ymgynghorydd ac awdur. Llywodraethir y Cyfnodolyn gan Fwrdd Golygyddol Ymgynghorol. Mae'r Cyfnodolyn ar gael i aelodau Engage a thanysgrifwyr i'r cyhoeddiad. I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://engage.org/journals/>.

I brynu un rhifyn neu danysgrifio i'r Engage Journal, gweler gwefan Engage neu ebostiwrch [info@engage.org](mailto:info@engage.org) am ragor o wybodaeth.